**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

19 Rhagfyr 2023

Anwyl Jenny,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 24 Tachwedd. Rwy'n nodi'r cwestiynau yr ydych wedi'u codi yn eich gohebiaeth, ac yn ateb y cwestiynau hynny isod:

**Adolygiad Sicrwydd yr Awdurdod Monitro Annibynnol: Plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal**

Ym mis Gorffennaf 2022, ysgrifennodd yr Awdurdod Monitro Annibynnol (IMA) ar gyfer y Cytundebau Hawliau Dinasyddion at bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn gofyn am sicrwydd eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau o ran gwneud a chefnogi ceisiadau ar gyfer y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ("y Cynllun") ar ran yr holl blant cymwys sy'n derbyn gofal, sy'n cael gofal a chymorth gan awdurdod lleol, ac sy'n gadael gofal. Fel yr ydych wedi'i nodi, cyhoeddodd yr IMA adroddiad interim wedi hynny, yn amlinellu ei bryderon ynghylch y prosesau a'r systemau sydd yn eu lle mewn rhai awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ers hynny mae awdurdodau lleol Cymru wedi cydweithio â'r IMA ac yn ddiweddar cadarnhaodd yr IMA eu bod bellach yn fodlon bod y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cymryd camau rhagweithiol i wella eu prosesau, eu gweithdrefnau a'u gwybodaeth reoli i sicrhau eu bod yn amddiffyn hawliau plant o'r UE sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal.

IMA is assured that local authorities in Wales are protecting the rights of EU looked after children and care leavers - Independent Monitoring Authority (ima-citizensrights.org.uk)

Roedd yr IMA yn ceisio sicrwydd mewn tri maes allweddol:
1. cadernid y prosesau adnabod
2. mesurau cadw cofnodion cywir

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. trefniadau cwblhau gwiriadau ôl-weithredol

O ganlyniad i'r mesurau a gymerwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'r IMA bellach yn dosbarthu pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn rhai 'gwyrdd' ym mhob un o'r meysydd hyn. Amlinellir canfyddiadau terfynol yr IMA yn ***Assurance Review (Looked after Children and Care Leavers) Annex 1a: Wales Follow on review***, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw achosion mewn awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n parhau ar agor.

Gellir gweld yr adroddiad hwn yma: [Wales-Follow-On-Review-November-2023.pdf (ima-citizensrights.org.uk)]()

Mae Llywodraeth Cymru yn falch gyda chanfyddiadau'r adroddiad hwnnw ac mae'r IMA wedi canmol pob awdurdod lleol yng Nghymru am y ffordd y maent wedi ymwneud â'r gwaith hwn. Mae'r gwaith hefyd wedi galluogi awdurdodau lleol i nodi rhagor o blant sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun ac, yn ddibynnol ar gais llwyddiannus, bydd yn gwarantu eu hawliau i barhau i fyw, i astudio ac i weithio yn y DU.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi pob awdurdod lleol yng Nghymru i weithredu prosesau cadarn i nodi a chefnogi carfannau cymwys yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref.

**Dinasyddion yr UE a chostau triniaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)**

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â'r holl fyrddau iechyd lleol yng Nghymru ac wedi penderfynu nad yw'r gwall yn y system wedi effeithio ar unrhyw ddinasyddion yr UE sy'n cael mynediad at wasanaethau iechyd perthnasol yng Nghymru.

**Newidiadau i ddeiliaid statws preswylydd cyn-sefydlog**

Ym mis Mehefin, ysgrifennais at Lywodraeth y DU yn galw am well trefniadau ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig mewn perthynas â chynlluniau'r Swyddfa Gartref i weithredu dyfarniad yr Uchel Lys yn dilyn yr adolygiad barnwrol. Er mawr siom imi, ni wnaeth Llywodraeth y DU ystyried y cais hwn wrth gyhoeddi'r newidiadau i'r system fewnfudo ym mis Gorffennaf. Ni ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ar y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun, ac ni chafodd rybudd ymlaen llaw cyn i'r cyhoeddiad gael ei wneud.

Ysgrifennais at yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol ym mis Awst i hysbysu'r Swyddfa Gartref bod y diffyg ymgysylltu hwn yn cael effaith niweidiol ar allu'r llywodraethau datganoledig i weithredu'r polisi yn effeithiol. Fodd bynnag, yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi gweld gwelliant o ran yr ymgysylltu ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru bellach yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Swyddfa Gartref wrth iddi ddatblygu newidiadau polisi yn dilyn canlyniad yr adolygiad barnwrol.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd mewn cysylltiad rheolaidd â'r IMA i sicrhau dealltwriaeth glir o'r hyn y mae'r newidiadau diweddar i'r system fewnfudo yn ei olygu i ddinasyddion â statws preswylydd cyn-sefydlog. Mae gwefan Llywodraeth Cymru a'r wefan Noddfa wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r newidiadau hyn, yn yr un modd â thaflenni gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar hawliau dinasyddion yr UE.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu estyn statws preswylydd cyn-sefydlog ac uwchraddio statws preswylydd sefydlog yn awtomatig, gan fod hyn yn lleihau'r baich ar ddinasyddion yr UE ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl heb statws diogel yn y diwedd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Swyddfa Gartref am eglurder ynghylch sut y bydd yn hysbysu dinasyddion nad ydynt yn gymwys i gael eu huwchraddio'n awtomatig. Mae hyn er

mwyn sicrhau bod y dinasyddion hynny yn ymwybodol y bydd hi'n ofynnol iddynt wneud cais i newid o statws preswylydd cyn-sefydlog i statws preswylydd sefydlog. Rydym wedi cael sicrwydd y bydd yr holl unigolion na ellir eu huwchraddio'n awtomatig i statws preswylydd sefydlog yn cael eu hysbysu'n briodol.

O ran y pwynt a wnewch ynghylch ystadegau cysylltiedig, mae'r Swyddfa Gartref wedi ymateb i'n cais am ystadegau ynghylch nifer y deiliaid statws preswylydd cyn-sefydlog sydd wedi'u huwchraddio'n awtomatig i statws preswylydd sefydlog, ac mae'r niferoedd hynny yn fwy calonnog. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd ac nid yw Llywodraeth y DU yn cynnwys y data hyn wrth gyhoeddi Ystadegau Chwarterol arferol y Cynllun, felly ni allwn rannu'r ystadegau hynny.

**Ceisiadau hwyr**

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi lleisio pryderon ynghylch dileu'r broses adolygiad gweinyddol. Bydd rhai dinasyddion dilys o'r UE yn dal i wneud cais hwyr i'r Cynllun ac yn cael eu gwrthod yn sgil y cyfyngu ar y meini prawf dilysrwydd a'r canllawiau i weithwyr achos ar seiliau rhesymol. Rydym yn annog unrhyw ddinesydd sydd wedi cael ei wrthod ac yn credu ei fod wedi gwneud cais hwyr dilys i gysylltu ag un o'r sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gael cymorth.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am unrhyw broblemau gyda chyfraddau gwrthod neu oedi cynyddol, ond mae rhanddeiliaid wedi rhoi gwybod bod cymhlethdod yr achosion y maent yn delio â nhw yn peri problemau. Mae ar randdeiliaid angen gweithwyr achos ag achrediad OISC ar lefel 2 a hyd yn oed lefel 3 i ddelio â'r achosion y maent yn awr yn eu gweld.

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cyllid grant i sefydliadau yng Nghymru er mwyn darparu mwy o gyngor mewnfudo yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn yn caniatáu i sefydliad uwchsgilio ei weithwyr presennol i gynnig cyngor sydd wedi'i achredu ar lefel uwch gan OISC. Mae'r cyllid yn talu am hyfforddiant, arholiadau a chofrestriadau gydag OISC.

Er bod niferoedd uchel o geisiadau hwyr o hyd, mae swyddogion y Swyddfa Gartref wedi nodi mai ceisiadau a ailgyflwynir yw'r rhain yn bennaf, ac nid ceisiadau newydd. Dyma'r rheswm dros gyfyngu ar y meini prawf dilysrwydd. Mae swyddogion y Swyddfa Gartref wedi nodi ymhellach eu bod yn awyddus i sicrhau nad oes oedi o ran ymdrin â cheisiadau hwyr dilys yn sgil y llif o geisiadau a ailgyflwynir gan ddinasyddion nad ydynt yn gymwys i gael statws preswylydd cyn-sefydlog na statws preswylydd sefydlog ac y gwrthodwyd statws iddynt.

Mae nifer y ceisiadau hwyr a wnaed gan ddinasyddion o'r UE yng Nghymru wedi gostwng dros fisoedd y gwanwyn a'r haf ond mae nifer y ceisiadau yn codi eto. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Swyddfa Gartref am ddadansoddiad o'r mathau o geisiadau ond nid ydym wedi cael ymateb i'r cais hwn eto. Mae Ystadegau Chwarterol y Cynllun i'w gweld yma: EU Settlement Scheme quarterly statistics, September 2023 - GOV.UK (www.gov.uk)

**Dim ceisiadau**

Ni ymgynghorodd Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru ar y cynlluniau i gau'r llwybr Zambrano a'r llwybr Trwydded Deulu ac ni chawsom ein hysbysu nes y cyhoeddodd Llywodraeth y DU y newidiadau i'r rheolau mewnfudo ym mis Gorffennaf, gan gadarnhau cau'r ddau lwybr.

Fodd bynnag, diddymwyd yr hawl Zambrano i breswylio yn y DU ar ddiwedd y cyfnod pontio yn dilyn yr ymadawiad â'r UE am 11pm ar 31 Rhagfyr 2020 ac nid yw'n dod o dan Gytundeb y Ddeddf Ymadael â'r UE na'r cytundebau hawliau dinasyddion â gwledydd eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Swistir. Penderfynodd y DU y dylai'r rhai â hawl o'r fath i breswylio yn y DU erbyn diwedd y cyfnod pontio gael cynnig mynediad i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, nes i'r llwybr gau ar gyfer ceisiadau newydd ar 8 Awst 2023.

O dan yr hawl i symud yn rhydd yn yr UE, roedd trwydded deulu yr AEE yn galluogi pobl nad oeddent yn ddinasyddion AEE ond a oedd yn aelodau o deuluoedd dinasyddion AEE (gan gynnwys aelodau teulu estynedig) i ymuno â nhw yn y DU. Pan ddaeth yr hawl i symud yn rhydd yn yr UE i ben ar 31 Rhagfyr 2020 ac yn unol â'r Cytundebau Ymadael, caeodd llwybr trwydded deulu yr AEE ar gyfer ceisiadau gan aelodau teulu estynedig (ac eithrio partneriaid hirbarhaus), ac ar 30 Mehefin 2021 i geisiadau eraill. Peidiodd trwyddedau teulu yr AEE â bod yn ddilys ar gyfer teithio i'r DU ar ôl 30 Mehefin 2021.

Ers 1 Gorffennaf 2021, dyroddodd y Swyddfa Gartref drwydded deulu o dan y Cynllun i aelodau o deulu uniongyrchol a phartneriaid hirbarhaus cymwys na ellid dyroddi trwydded deulu yr AEE iddynt oherwydd bod y llwybr hwnnw wedi cau. Er bod llwybr Trwydded Deulu y Cynllun wedi cau ar 8 Awst 2023, bydd yn parhau ar agor i unigolion sydd eisoes â statws, sydd â chais ar y gweill neu sy'n destun apêl.

Gyda thystiolaeth mai nifer bach iawn o geisiadau a gyflwynwyd drwy'r llwybrau hynny gan breswylwyr Cymru, nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y bydd cau'r llwybrau hyn yn cael effaith fawr. Fodd bynnag, fel bob amser, byddai rhybudd ymlaen llaw gan Lywodraeth y DU wedi galluogi gwell dadansoddiad o hyn.

**Cymorth Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi estyn Gwasanaethau Cynghori y Cynllun a ddarperir gan Settled a Cyngor ar Bopeth Cymru, gyda'r ddau sefydliad wedi'u hariannu i ddarparu gwasanaethau hyd 31 Mawrth 2024.

Mae Cyngor ar Bopeth a Settled yn darparu adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae'r rhain yn cynnwys nifer y dinasyddion y maent yn eu helpu i gyflwyno'n llwyddiannus gais i'r Cynllun. Fodd bynnag, mae nifer y dinasyddion sy'n ceisio cyngor yn llai o broblem yn dilyn y dyddiad cau. Cymhlethdod yr achosion sy'n cynyddu.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu prosiect 'Travelling Ahead' yn TGP Cymru er mwyn rhoi cyngor a chymorth eirioli i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r prosiect Travelling Ahead yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl drwy gefnogi aelodau o'r gymuned i sicrhau diogelwch llety, i gael mynediad at wasanaethau a budd-daliadau, ac i ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a gwasanaethau cyhoeddus.

Dyma amcanion y gwasanaeth:
- Hwyluso cyfle cyfartal i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng nghymdeithas Cymru
- Darparu cymorth a chysylltu â gwasanaethau cynghori arbenigol i helpu aelodau o'r gymuned i integreiddio'n effeithiol i'r gymdeithas yng Nghymru, gan gynnwys cefnogi newidiadau i brosesau cyhoeddus pan fo angen
- Cefnogi cydlyniant cymunedol drwy herio stereoteipiau negyddol a meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau
- Grymuso cymunedau ac unigolion i gael llais ac i wneud sylwadau ar eu rhan eu hunain ar ddatblygu polisi ac unrhyw faterion eraill a gaiff eu codi

- Cefnogi Llywodraeth Cymru er mwyn dileu achosion o wahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal

Mae swyddogion yn dechrau ar ymarfer caffael newydd i ail-dendro darpariaeth cyngor a chymorth eirioli i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gyda'r bwriad o osgoi unrhyw doriad yn y gwasanaethau sydd ar gael.

Mae TGP Cymru yn parhau i gael ei ariannu gan Lywodraeth y DU i ddarparu Gwasanaethau Cynghori (lefel 1 OISC) y Cynllun i'r gymuned Roma. Er nad oes gennym ddata ar nifer yr unigolion sydd angen cymorth, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynnydd yn y galw am gyngor i'r gymuned Roma.

Mae'r contract ar gyfer Newfields Law i ddarparu Gwasanaethau Cynghori y Cynllun wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2023. Fodd bynnag, mae Newfields Law yn parhau i ymgysylltu â Grŵp Cydlynu y Cynllun. Mae cyngor cyfreithiol am ddim ar gael o hyd i ddinasyddion yr UE yng Nghymru drwy'r sefydliadau a ariennir drwy grant a thrwy'r gwasanaethau y mae Dirprwyaeth yr UE i'r DU yn eu cynnig.


**Ceisiadau gan Wcreiniaid**

Hyd at 30 Medi 2023, gwnaeth 15,260 o wladolion o Wcráin ledled y DU gais ar gyfer y Cynllun. Fodd bynnag, nid yw Ystadegau Chwarterol diweddaraf y Cynllun yn darparu dadansoddiad fesul gwlad felly ni allwn ddarparu ffigur wedi'i ddiweddaru o faint o ymgeiswyr oedd yn preswylio yng Nghymru adeg y cais.

Nid yw Grŵp Cydlynu y Cynllun wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw broblemau penodol i ddinasyddion Wcráin yn dilyn cau'r llwybr Trwydded Deulu.

Mae Grŵp Cydlynu y Cynllun bellach wedi dod i ben yn ffurfiol ac mae Fforwm Hawliau Dinasyddion yr UE ehangach yn cymryd ei le. Bydd y grŵp newydd yn ymdrin â hawliau dinasyddion yr UE yn ogystal â'r Cynllun. Cytunwyd ar aelodaeth a chylch gorchwyl ac mae disgwyl i gyfarfod cyntaf y fforwm newydd gael ei gynnal yn y flwyddyn newydd.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**